CFfG/2021/ 5ed Cyfarfod

**Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 16:30 ddydd Mawrth 29 Mehefin 2021 trwy gyfrwng Microsoft Teams.

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Mrs Ustus Jefford | Dirprwy Gadeirydd |
| Neil Park | Asesydd (y Swyddfa Ystadegau Gwladol) – Gadawodd am 17:30pm |
| Huw Vaughan Thomas | Comisiynydd |
| Sam Hartley | Comisiynydd |
| Shereen Williams | Ysgrifennydd y Comisiwn |
| Tom Jenkins | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |
| Carys Vaughan | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |

**Amser Dechrau:** 16:30
**Amser Gorffen:** 18:24

## 1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGAN BUDDIANNAU

1.1. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2.1. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer Aaron Sollis, Asesydd (Arolwg Ordnans).

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

3.1. **Cytunodd** y Comisiwn ar gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Mawrth 27 Ebrill 2021.

## 4. MATERION YN CODI

4.1. Rhoddodd yr Ysgrifennydd ddiweddariadau ar Faterion yn codi o gyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ddydd Mawrth 27 Ebrill 2021.

**Mater 1 – Gwrandawiadau Cyhoeddus**

4.2. **Nodwyd** y bu'r Ysgrifennydd yn mynychu digwyddiadau ar-lein i weld yr ystod o wasanaethau sy'n ymwneud ag elfen ar-lein y gwrandawiadau cyhoeddus.

4.3. **Nodwyd** bod y pedwar Comisiwn yn parhau i benderfynu ar y broses ar gyfer gwrandawiadau cyhoeddus. Bydd CFfG yn gwneud penderfyniad terfynol erbyn canol mis Medi.

4.4. **Nodwyd** bod gan y Comisiwn fynediad i system gaffael Llywodraeth Cymru a bydd yn cwblhau'r broses arferol pan fydd penderfyniad wedi'i wneud.

**Mater 2 – Cyhoeddi Papurau Cyfarfodydd**

4.5. **Nodwyd** bod y Comisiwn Ffiniau i Loegr (BCE), y Comisiwn Ffiniau i'r Alban (BCS) a'r Comisiwn Ffiniau i Ogledd Iwerddon (BCNI) yn cyhoeddi'r holl bapurau, gan gynnwys y rhai o Gyfarfodydd Cynllun.

4.6. **Cytunwyd** y bydd papurau o Gyfarfodydd Cynllun yn cael eu cyhoeddi ar ddiwedd arolwg Seneddol 2023.

4.7. **Nodwyd** y bydd pob papur yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Mater 3 – Asesu Effeithiau**

4.8. **Nododd** a **chytunodd** y Comisiwn ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

4.9. **Cytunwyd** y bydd yr Ysgrifennydd yn diweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar bob cam o'r broses arolygu.

## 5. COFRESTR RISG

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni, a **nodwyd** bod y newidiadau a **gytunwyd** yn y cyfarfod diwethaf wedi'u gwneud.

5.2. **Nodwyd** bod dau newid i'r gofrestr risg, fel a ganlyn:

5.3. Mae mesurau lliniaru ar gyfer CFfG4 wedi'u **diweddaru** i gynnwys dyddiad cau'r ceisiadau ar gyfer Comisiynydd Cynorthwyol.

5.4. Mae'r mesurau lliniaru ar gyfer CFfG10 wedi'u **diweddaru** i adlewyrchu'r cyhoeddiad gan BCE a'r gwaith parhaus â'r datblygwr ar borth CFfG. **Nodwyd** bod porth BCE bellach yn fyw.

## 6. RECRIWTIO COMISIYNYDD CYNORTHWYOL

6.1. Bu'r Comisiwn yn ystyried yr adroddiad dyddiedig 22 Mehefin 2021 gan yr Ysgrifennydd.

6.2. **Nodwyd** bod un cais wedi dod i law hyd yma ar gyfer rôl Comisiynydd Cynorthwyol.

6.3. **Cytunwyd** y bydd yr Ysgrifennydd yn adrodd i'r Comisiynwyr ynghylch nifer yr ymgeiswyr ar ôl i'r hysbyseb am Gomisiynydd Cynorthwyol gau ddydd Llun 5 Gorffennaf.

6.4. **Nodwyd** y posibilrwydd y bydd angen defnyddio ymgynghoriaeth recriwtio os na all y Comisiwn recriwtio tîm llawn o Gomisiynwyr Cynorthwyol.

6.5. **Gweithredu:** Bydd yr Ysgrifennydd yn cysylltu ag ymgeiswyr blaenorol ar gyfer y rôl ac yn rhannu manylion y cais â nhw.

6.6. **Gweithredu:** Bydd yr Ysgrifennydd yn cysylltu â Peter Richardson a gofyn iddo anfon dolen ar gyfer rôl Comisiynydd Cynorthwyol at ymgeiswyr blaenorol ar gyfer rôl Comisiynwyr CFfG.

6.7. **Gweithredu:** Bydd yr Ysgrifennydd yn adrodd i'r Comisiynwyr ynghylch nifer yr ymgeiswyr ar ôl i'r hysbyseb am Gomisiynydd Cynorthwyol gau ddydd Llun 5 Gorffennaf.

## 7. YR ADRODDIAD CYNIGION CYCHWYNNOL

7.1. Bu'r Comisiwn yn ystyried yr Adroddiad Cynigion Cychwynnol gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

7.2. **Nodwyd** bod y diwygiadau y **cytunwyd** arnynt yn y cyfarfod diwethaf wedi'u gwneud a bod yr adroddiad wedi'i wirio'n gyfreithiol a'r proflenni wedi'u darllen.

7.3. **Nodwyd**, ar ôl i'r adroddiad gael ei **gymeradwyo**, y bydd y Comisiwn yn trefnu i'w gyfieithu ac yna ei argraffu i'w gyhoeddi ym mis Medi.

7.4. Trafodwyd a **chytunwyd** ar nifer o ddiwygiadau, a **chymeradwywyd** yr Adroddiad Cynigion Cychwynnol.

7.5. **Cytunwyd** y bydd y Dirprwy Gadeirydd yn derbyn ac yn cymeradwyo'r rhagair cyn cyhoeddi'r Adroddiad Cynigion Cychwynnol.

7.6. **Cytunwyd** y bydd pob un o'r tri Chomisiynydd yn derbyn copi caled o'r Adroddiad Cynigion Cychwynnol pan gaiff ei gyhoeddi.

7.7. **Cytunwyd**, gan nad yw Propel, y Blaid Diddymu a Phlaid Annibyniaeth y DU bellach yn dal seddau yn Senedd Cymru, na fyddant yn derbyn copïau caled o'r Adroddiad Cynigion Cychwynnol a'r mapiau. **Nodwyd** y bydd modd cael mynediad i'r adroddiad ar-lein.

7.8. **Cytunwyd** y bydd yr Adroddiad Cynigion Cychwynnol a'r mapiau ar gyfer Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn cael eu hanfon i'r Lleoliad Adneuo yn Nhŷ Penallta.

7.9. **Cytunwyd** y byddai sylwadau'n cael eu cyhoeddi cyn yr ail gyfnod ymgynghori a gwrandawiadau cyhoeddus.

7.10. **Gweithredu:** Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn cysylltu â CBS Caerffili ac yn egluro'r Lleoliadau Adneuo yng Nghaerffili.

7.11. **Gweithredu:** Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn anfon copi o'r rhagair at y Dirprwy Gadeirydd i'w gymeradwyo cyn cyhoeddi'r Adroddiad Cynigion Cychwynnol.

## 8. ADRODDIAD GWERSI A DDYSGWYD 2018 – ARGYMHELLION

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 22 Mehefin 2021 gan yr Ysgrifennydd, a **nodwyd** a **chytunwyd** ar y cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion ar wersi a ddysgwyd.

8.2. **Cytunwyd** y bydd yr argymhellion gorffenedig yn cael eu cau ac y bydd yr argymhellion sydd wrthi'n cael eu gweithredu yn cael eu gadael yn agored.

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR IAITH GYMRAEG

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 22 Mehefin 2021 gan yr Ysgrifennydd.

9.2. **Nododd** a **chytunodd** y Comisiwn i fabwysiadu Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg ar gyfer 2020-21.

9.3. **Nodwyd** nad yw CFfG yn ddarostyngedig i'r safonau yn yr un modd â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru a'i fod yn hytrach wedi mabwysiadu safonau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

## 10. UNRHYW FUSNES ARALL

10.1. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn darparu'r Adroddiad Cynigion Cychwynnol a'r mapiau i ASau ganol dydd o dan embargo ar y diwrnod cyn cyhoeddi. Bydd y wasg yn derbyn y wybodaeth yn ddiweddarach yn y prynhawn, hefyd o dan embargo.

10.2. **Adroddwyd** bod y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi cyflogi cyflenwr creu cynnwys o'r enw Savage and Gray. Mae sgript ddrafft wedi'i hanfon at y cwmni ar gyfer creu fideo animeiddio sy'n ddwy funud o hyd, a dwy

hysbyseb sy’n 30 eiliad o hyd, ar gyfer teledu a radio, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd dyluniadau hysbysebion y tu allan i’r cartref ar gyfer bysiau yn cael eu seilio ar yr animeiddiad y mae Savage and Gray yn ei greu. Bydd ymgyrch gan Media Angel yn dechrau ar 13 Medi 2021 a fydd yn cynnwys pedair wythnos o hysbysebion ar gefn 110 o fysiau ac ar ochrau 25 o fysiau ledled Cymru. Hefyd, bydd 200,000 o hysbysebion radio digidol yn ymddangos ar orsafoedd radio gan gynnwys Heart, Capital a Smooth.

10.3. **Gweithredu:** Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn gwirio a fydd yr hysbysebion radio digidol yn ymddangos ar orsafoedd radio Cymraeg, hefyd.

10.4. **Cytunwyd** y bydd yr holl sylwadau yn cael eu rhoi mewn dogfen PDF a’u hanfon at y Comisiynwyr yn gyfnodol.

10.5. Trafodwyd amlder y cyfarfodydd, a **chytunwyd** y bydd y ddau gyfarfod nesaf yn cael eu cynnal ddydd Mawrth 12 Hydref a dydd Llun 22 Tachwedd am 16:30pm.